Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

**Prawf Cyfieithu ar y Pryd i'r Saesneg**
**6 Chwefror 2024**
**Adroddiad Cyffredinol**

## Y prawf

Cynhaliwyd y prawf dros Zoom ar 6 Chwefror 2024. Roedd y trefniadau technegol dan ofal CTV Sound Studios, Caerdydd, gyda pheiriannydd sain proffesiynol yn gyfrifol am chwarae'r darnau prawf ac am recordio cyfieithiadau'r ymgeiswyr. Goruchwyliwyd y broses brofi gan Reolwr Systemau'r Gymdeithas, Nia Wyn Jones.

## Y Ddarnau prawf

### Darn 1

Rhan o sesiwn graffu Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Cafwyd cyflwyniad i'r eitem gan y Cadeirydd, Heledd Fychan, a chyfres o gwestiynau, a ofynnwyd yn Saesneg, gan Tom Giffard ac a atebwyd, yn Gymraeg, gan Jeremy Miles, y Gweinidog dros y Gymraeg ac Addysg.

### Darn 2:

'Merched Meddygol—Profiadau o'r Pandemig': un o gyfres o ddigwyddiadau a drefnwyd gan Brifysgol Abertawe i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2022. Testun y sgwrs led anffurfiol hon, dan gadeiryddiaeth yr Athro Angharad Puw Davies, oedd profiadau proffesiynol a phersonol tair o fenywod a oedd yn gweithio mewn gwahanol sectorau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn nyddiau cynnar pandemig COVID-19.

## Y safon

At ei gilydd, roedd y safon yn dda. Cafwyd enghreifftiau o gyfieithu eglur ac ystwyth gan bob ymgeisydd, gyda'r cryfaf yn llwyddo i gynnal momentwm drwy'r ddau ddarn prawf. Roedd yr aseswyr yn gwbl gytûn bod potensial clir ac y dylai'r ymgeiswyr aflwyddiannus fanteisio ar bob cyfle i ymarfer ac i fagu profiad a hyder cyn rhoi cynnig arall arni.

## Geirfa

Roedd yr eirfa gyffredinol yn gryf ac, er bod rhai llithriadau o ran yr eirfa dechnegol, gwnaed defnydd effeithiol o'r wybodaeth gefndir a ddarparwyd:

*llefydd i fyfyrwyr > student placements*
*gorchfygu > overwhelm*
*datgymalu > decouple*

*patrwm dyddiol > daily routine*
*llacio > ease*
*ychwanegion [cyllidebol] > additional allocations*
*trochi hwyr > late immersion*
*pwyslais > emphasis*
*mynediad hafal > equal access*
*codi sgiliau > upskill*
*canolog > integral*

Fodd bynnag, nid pob gair oedd yn taro deuddeg, a methwyd â chynnig cyfieithiadau o rai geiriau:

*nodi diwrnod rhyngwladol y menywod > to note (*yn hytrach na *'to mark')*
*mynediad hafal > equal opportunity*
*darlun mawr > wider picture*
*cytundeb cydweithio > working together*
*dadansoddiad > work*
*setliad > support*
*chwyddiant > [*dim cynnig*]*
*San Steffan > UK Government*

**Deall, dehongli a chywirdeb**

Ar y cyfan, llwyddwyd i gyfleu natur a naws y drafodaeth yn effeithiol a chafwyd cymalau estynedig o gyfieithu cyflawn a rhwydd a fyddai, o ran y cynnwys a chywirdeb, yn ennyn hyder cynulleidfa. Byddai ymgeiswyr wedi elwa o bwyllo ar adegau er mwyn deall trywydd y frawddeg cyn bwrw ati i gyfieithu, gan fod y tueddiad i ddechrau ac ailddechrau brawddeg yn awgrymu diffyg hyder ac ansicrwydd ynghylch naratif y sgwrs.

**Cystrawen, cywair ac idiom**

Er bod rhai enghreifftiau o gyfieithu anidiomatig (*yn benderfyniad yr oedd galw arna' i'w wneud > a decision I was being called upon to do; wedi cymryd rhan bwysig > participated very importantly)* mae'n debyg mai'r nerfusrwydd a ddaw yn sgil gweithio dan amodau prawf oedd yn bennaf cyfrifol am y rhain.

Drwyddi draw, roedd y cyfieithu'n rhywiog a naturiol a'r gystrawen a'r idiom yn cyfleu naws y gwreiddiol:

*tynnu ar (ffynonellau ariannol) > to draw upon*
*mwy o ddata i ddod > further data releases*
*o'n i'n methu cysgu > I had sleepless nights*
*rhywle arall yn y byd > elsewhere in the world*
*mor ddifrifol oedd y sefyllfa > how grave the situation was*
*yn ddigon heriol > quite a challenge*
*rhagrybudd (o'r ffigyrau) – advance sight of the figures*

**Arddull a chyflwyniad technegol**

Er bod yma leisiau dymunol, hawdd gwrando arnynt, dylai pob ymgeisydd wrando'n feirniadol ar y recordiad o'i brawf ac ystyried sut y gall fireinio'r mynegiant a gwahaniaethu'n fwy effeithiol rhwng siaradwyr. Ar brydiau, roedd geiriau'n ymdoddi i'w gilydd a phetrusrwydd ac ansicrwydd yn rhy agos at yr wyneb.

Wedi dweud hynny, llwyddodd pob ymgeisydd, y llwyddiannus a'r aflwyddiannus, i gyflwyno cymalau o gyfieithu llyfn a hyderus, ac yr oedd yma dalent ac addewid amlwg.

## Y canlyniad

Dyfarnwyd bod un ymgeisydd yn llwyddo'r tro hwn.

## Gair o ddiolch

Hoffwn ddiolch i'r aseswyr am eu gwaith manwl a thrwyadl ac i staff y Gymdeithas a'r Prif Arholwr CAP am eu cymorth, eu cefnogaeth a'u harweiniad gydol y broses brofi hon.